



gwerth mewn gwahaniaeth
delivering on distinction

Hysbyseb Swydd

Swyddog Datblygu Cymraeg Byd Busnes (Môn a Gwynedd)

Cyfflog: £23,866 (37 awr yr wythnos)

Cytundeb: Tan 31ain o Orffennaf 2020 yn y lle cyntaf gyda'r gobaith o ymestyn yn ddibynnol ar gyllid. Deilydd y swydd i ddechrau mor fuan â phosib.

Lleoliadau: Pencadlys Menter Môn ydi'r prif swyddfa, ond bydd y swydd yn gofyn am deithio rheolaidd o gwmpas yr ardal.

A hoffech weithio i brosiect cyffrous fel rhan o fenter egniol a blaengar, Menter laith Môn? Rydym yn chwilio am unigolyn hyblyg, brwdfrydig a hyderus sydd yn gallu meistroli nifer o elfennau amrywiol sydd ynghlwm â'r gwaith o ddylanwadu a pherswadio busnesau sector breifat maint bach a chanolig i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

Am wybodaeth bellach; <https://www.mentermon.com/swyddi/>

Neu cysylltwch â Nia Wyn Thomas;

nia@mentermon.com / 01248 725700

Cyllidir y swydd gan Lywodraeth Cymru

Dyddiad cau: **5pm dydd Gwener, 14eg o Fehefin 2019**

Dyddiad cyfweld: **26ain o Fehefin, 2019**

Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd yma
The ability to speak Welsh is Essential for this post



Teitl Swydd : Swyddog Datblygu Cymraeg Byd Busnes	Lleoliad: Llangefni	Band Cyflogaeth : SO	
Yn atebol i : Prif Swyddog, Menter Iaith Môn	Yn gyfrifol am : -	Amrediad Cyflog : £23,866	
Prif ddiben y Swydd: Cyflawni cynlluniau sy'n gwireddu nod ac amcanion prosiect Cymraeg Byd Busnes.			
Cyfrifoldebau	Sgiliau / Profiad		
<p>Prif Ddyletswyddau:</p> <p>Dylanwadu a pherswadio busnesau sector breifat maint bach a chanolig i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg drwy;</p> <p>Bod yn gyswllt lleol i fusnesau a chynnig cefnogaeth wedi'i deilwra ar gyfer anghenion busnesau unigol.</p> <p>Cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg ym myd busnes gan drefnu digwyddiadau ac ymgyrchoedd lleol i hyrwyddo'r negeseuon.</p> <p>Cydlynu negeseuon strategol lleol (ar y cyd â siambrau masnach, Busnes Cymru, Comisiynydd ayyb)</p> <p>Cydweithio'n effeithiol gyda staff i ddatblygu cynlluniau yn unol â strategaeth ehangach Menter Iaith Môn a magu perthnasau gweithiol cadarnhaol gyda phartneriaid allanol i sicrhau ffyniant a llwyddiant.</p> <p>Sicrhau fod pob prosiect yn cael ei gynnal yn unol ag arfer gorau a pholisiau Menter Môn.</p> <p>Sicrhau fod gwybodaeth a manylion am y prosiect yn cael ei farchnata ar wefannau cymdeithasol a bod presenoldeb cyson yn y wasg.</p> <p>Cadw cofnod o gynnydd gan adrodd yn ôl i'r Prif Swyddog a chyllidwyr yn amserol.</p> <p>Cynrychioli'r Cwmni:</p> <p>Bydd deillydd y swydd yn gynrychiolydd balch o gwmni Menter Môn ac yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau enw da i'r Cwmni.</p>	<p>Hanfodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diddordeb a dealltwriaeth o sefyllfa'r iaith Gymraeg yn lleol ac yn genedlaethol. • Y gallu i ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol. • Profiad o weithio mewn partneriaeth ac yn rhyngasiantaethol. • Y gallu i ddelio'n effeithiol a chwrtais â phobl ar bob lefel. <p>Dymunol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Profiad a dealltwriaeth o weithio gyda'r Sector Breifat. 		
	Cymwysterau		
		<p>Hanfodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trwydded yrru gyfredol / y gallu i deithio yn ôl y gofyn • Y gallu i gyfathrebu yn hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg • Y gallu i weithio oriau anghymdeithasol o bryd i'w gilydd 	<p>Dymunol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymhwyster rheoli prosiect • Gradd neu brofiad cyfystyr o weithio yn y maes
Nodweddion Personol			

Disgwylir i ddeiliant y swydd feddu'r sgiliau canlynol;

- Sgiliau rhyngpersonol dda
- Cyfrifol
- Trefnus
- Hyblyg
- Dwyn perswâd, dylanwadu ac ysbrydoli eraill
- Brwdfrydedd a chymhelliant
- Sensitifrwydd

